**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar MS
Cadeirydd Dros Dro
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomy@senedd.wales

21 Ebrill 2023

Annwyl Darren,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Mawrth yn gofyn am farn ac asesiad Llywodraeth Cymru ynghylch effaith y Cytundeb Masnach Rydd a’r Bartneriaeth Strategol rhwng y DU ac Wcráin ar Gymru, yn dilyn cyfnewid llythyrau ar 23 Chwefror.

Er bod Llywodraeth Cymru fel arfer yn cael ei chynnwys wrth i negodiadau masnach ddatblygu, oherwydd natur y cytundeb hwn, sy'n ymateb uniongyrchol i ymosodiad Rwsia ar Wcráin ac ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth economaidd i Wcráin drwy lacio'r holl gwotâu cyfradd tariff a thariffau, mae rhan Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfyngedig.

Mae masnachu nwyddau ag Wcráin yn cyfrif am tua 0.05% o allforion Cymru a thua 0.01% o fewnforion. Mae ein ffigurau diweddaraf ar gyfer masnach yn dangos gostyngiad mewn gwerth masnachu nwyddau, o £25 miliwn yn 2021 i tua £11.7 miliwn yn 2022. O'r rhain gwerth mewnforion ac allforion oedd £2.2 miliwn a £9.6 miliwn yn y drefn honno. Mae'n deg priodoli'r gostyngiad hwn i'r rhyfel presennol

Er bod rhan Llywodraeth Cymru yn y cytundeb hwn yn gyfyngedig, rydym yn cefnogi'n llawn unrhyw fesurau i gefnogi Wcráin yn y rhyfel parhaus, ac rydym yn croesawu'r camau cadarnhaol mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd. Fodd bynnag, rwyf wedi'i gwneud yn clir yn byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gael ei chynnwys mewn unrhyw adolygiad o'r cytundeb yn y dyfodol.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.